

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Oasis Dental Practice Ltd (Total
Orthodontics and Dental Care
Plus, Wrexham) / Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 26 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Total Orthodontics and Dental Care Plus, Wrexham yn Uned K1, Ellice Way, Parc Technoleg Yale, Wrecsam, LL13 7YT, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 26 Tachwedd 2019. Mae Total Orthodontics and Dental Care Plus, Wrexham yn rhan o Bupa Dental Care Limited.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Total Orthodontics and Dental Care Plus yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd y gweithdrefnau rheoli heintiau yn gyson â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda iawn a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd cyfleusterau'r deintyddfeydd yn cynnwys offer da iawn ac roeddent yn daclus ac yn drefnus
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel

- Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Roedd cofnodion clinigol o ansawdd da yn cael eu cadw.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sganio ffurflenni cydsyniad a hanes meddygol, ynghyd â ffurflenni FP17 wedi'u llofnodi, er mwyn eu cynnwys yn nodiadau clinigol unigol y cleifion
- Sicrhau bod difrod i loriau'r deintyddfeydd yn cael ei drwsio
- Sicrhau y cynhelir Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid o archwiliadau rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu
- Sicrhau y caiff adroddiad ei lunio ar bob radiograff ac y caiff ei gyfiawnhau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Total Orthodontics & Dental Care Plus, Wrexham yn cynnig gwasanaethau deintyddol orthodontig i gleifion yn Wrecsam a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau orthodontig a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dau therapydd, 10 nyrs ddeintyddol, dau dderbynnnydd a rheolwr practis dynodedig.

Mae Total Orthodontics & Dental Care Plus, Wrexham yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau orthodontig preifat a gwasanaethau orthodontig ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Total Orthodontics and Dental Care Plus, Wrexham yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 33 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers llai na blwyddyn hyd at ddim mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Cwbl fodlon ar y gwasanaeth a'r gofal cwsmeriaid rwy'n eu cael”

“Rwy'n meddwl bod y gwasanaeth a ddarperir yn ardderchog ar y cyfan. Mae'r staff bob amser yn barod eu cymorth.”

“Rwyf wedi bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan Total Orthodontics. Cafodd y holl opsiynau ar gyfer alinio'r dannedd eu hesbonio'n glir a rhoddwyd digon o amser i mi eu hystyried. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac yn barod ei gymorth ac maent yn hyblyg o ran yr apwyntiadau er bod y staff mor brysur.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mwy o bobl i ateb y ffonau. Apwyntiadau ar ôl ysgol.”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y dderbynfa a'r ardal aros, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i'r cleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael yn y ddwy ystafell aros a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym:

“Gwasanaeth gwyb. Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn hapus i helpu bob amser. Mae'r practis yn lân iawn.”

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

"Maent mor amyneddgar ac maent wedi cynnig llawer o gymorth i fy mab, sydd ag awtistiaeth."

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys ardal lle gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw'r cleifion.

Roedd tri 'phod' ar gyfer triniaeth orthodontig mewn clinig agored mawr ar y llawr gwaelod ac roedd dwy ddeintyddfa breifat i gleifion ar y llawr cyntaf. Gwnaethom argymell y dylai'r practis roi mwy o ystyriaeth i breifatrwydd ac urddas y cleifion yn ardal agored y practis. Gwelsom, wrth i'r cleifion ddod i mewn i'r clinig agored, fod un pod wedi'i leoli yn union gyferbyn â'r drws a'r coridor sy'n arwain o'r ystafell aros. Mae unrhyw gleifion sy'n cael triniaethau yn y pod hwn yn gwbl weladwy i gleifion eraill ac unrhyw berthnasau sydd wedi dod gyda nhw sy'n mynd i mewn i'r clinig agored. Rydym yn argymell y dylai'r practis ystyried gosod rhannwr ychwanegol o flaen y 'pod' er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu diogelu yn y clinig agored.

Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² ar gael i gleifion yn y ddwy ystafell aros. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall y cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Lle y bo'n briodol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

² <https://standards.gdc-uk.org/>

Roedd cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. O ganlyniad, roedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros hefyd.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn y ddwy ardal aros. Roedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac roedd ar gael i'r cleifion yn ddwyieithog.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser neu eu bod yn gallu gwneud hynny weithiau. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo. Trefnodd y practis ar unwaith i'r poster iaith Gwaith gael ei arddangos wrth ddesg y dderbynfa. Mae brand iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau.

Dywedodd ychydig yn llai na dau o bob tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ger y brif fynedfa ac roedd ar gael ar wefan y practis, i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar y daflen wybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn fanwl ac o ansawdd uchel. Gwelsom dystiolaeth bod opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd ffurflenni cydsyniad a hanes meddygol y cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ar adeg pob ymweliad. Nodwyd gennym fod ffurflenni hanes meddygol a chydsyniad y cleifion yn cael eu cadw ar wahân i nodiadau clinigol y cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis y dylai ffurflen hanes meddygol y claf fod yn rhan o'r cofnod clinigol cyffredinol. Gwnaethom argymhell i'r practis y dylid cadw hanes meddygol y claf, ynghyd â'r ffurflenni FP17 wedi'u llofnodi (datganiad y claf) a'r cydsyniad wedi'i llofnodi, yn nodiadau clinigol unigol y claf yn hytrach na bod copïau caled yn cael eu cadw ar wahân.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben³.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sganio ffurflenni cydsyniad a hanes meddygol, ynghyd â ffurflenni FP17 wedi'u llofnodi, er mwyn eu cynnwys yn nodiadau clinigol unigol y cleifion.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

³ Mae Rheoliad 5 ac Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd angen ei chynnwys mewn datganiad o ddiben.

Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Gallai'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad i'r clinig agored ar y llawr gwaelod, yr ystafell ymgynghori, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod gan y practis bolisi cwyno ysgrifenedig. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys manylion am unrhyw ffynonellau cymorth nac eiriolaeth. Gwnaeth rheolwr y practis ychwanegu'r manylion hyn at y gweithdrefnau ar unwaith yn ystod ein hymweliad. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y sefydliad cyfan wrthi'n adolygu'r polisi cwynion ac y rhoddir y gweithdrefnau newydd ar waith yn y practis yn ystod mis Ionawr 2020.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a gyflwynir, eu monitro ac ymateb iddynt.

Gwnaethom drafod system y practis i geisio adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn gadarnhaol. Roedd manylion am adborth cleifion yn cael eu harddangos yn y ddwy ardal aros. Roedd hyn yn dangos i'r cleifion a oedd yn ymweld â'r practis fod eu hadborth wedi'i ystyried a bod y practis wedi gweithredu arno er mwyn dysgu gwersi a gwella'r gwasanaeth.

Gwelsom hefyd fod blwch sylwadau ar gael yn yr ardal aros er mwyn i gleifion roi adborth ychwanegol neu adael awgrymiadau yn ddiennw.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd y gweithdrefnau rheoli heintiau yn gyson â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod offer a phrosesau dihalogi yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Roedd y broses o gadw cofnodion o safon dda.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

At ei gilydd, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da iawn y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd toiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol, megis tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd pob asesiad risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben a gwelsom ddigon o ddogfennau a oedd yn dangos bod y practis wedi ystyried pob risg fewnol ac allanol i'r staff, ymwelwyr a chleifion.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith a gwelsom fod y staff i gyd wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/dadebru brys.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ddau gyfleuster pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleusterau yn lân ac yn drefnus iawn, roeddent yn cynnwys offer priodol ac roeddent yn glir rhag rhwystrau.

Gwnaethom ystyried y trefniadau dihalogi ac roedd y broses a welsom yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a gwelsom y canlynol:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint
- Gwiriadau cynnal a chadw dyddiol

Gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilyniir i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Roedd yr archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau a gwelsom dystiolaeth bod y cynllun gweithredu dilynol wedi cael ei roi ar waith.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf a gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Nodwyd gennym nad oedd un o'r peiriannau glanhau a diheintio awtomataidd yn cael ei ddefnyddio a bod angen iddo gael ei drwsio. Rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar gan reolwr y practis fod cynlluniau ar waith i drwsio'r peiriant glanhau a diheintio.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag firsau a gludir yn y gwaed.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i dddoli a'i osod yn y bagiau/cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y peiriant glanhau a diheintio yn cael ei drwsio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf. Roedd gan y practis bum swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y

staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg, ac roedd polisïau diogelu ar waith.

Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff i arwain materion diogelu, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn, ac yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i'r staff ar faterion diogelu.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â gwaith â'r rheolwr y practis a'u bod yn hyderus y byddai'r rheolwr yn ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁴ ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i fod wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar y deintyddfeydd a gweld bod cyfarpar priodol ynddynt er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom nodi bod y deintyddfeydd wedi cael eu cynllunio a'u threfnu er mwyn helpu'r tîm i weithio'n effeithlon. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai o'r dolenni ar y cabinetau yn

⁴ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

y deintyddfeydd i fyny'r grisiau yn llychlyd. Nodwyd gennym hefyd fod rhai rhannau o lorïau'r deintyddfeydd wedi cael eu difrodi. Gwnaethom argymhell y dylid trwsio'r rhannau hyn o lawr y deintyddfeydd er mwyn helpu i'w glanhau'n effeithiol. Yn ogystal, nodwyd gennym fod rhai marciau pwti ar lorïau'r deintyddfeydd yr oedd angen cael gwared arnynt. Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oedd y deintyddfeydd yn cael eu defnyddio'n amser llawn ac nad oeddent yn cael eu defnyddio ar ddiwrnod ein harolygiad. Trefnodd rheolwr y practis ar unwaith fod y ddwy ddeintyddfa yn cael eu glanhau yn ystod yr arolygiad. Gwelsom hefyd fod angen trwsio'r blwch ar gyfer ceblau rhwydweithio yn un o'r deintyddfeydd.

Nodwyd gennym hefyd fod un o'r cadeiriau deintyddol ar y llawr gwaelod wedi cael ei ddifrodi. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd i ni ar lafar fod cynlluniau ar waith i newid y gadair, a gwelsom dystiolaeth bod trefniadau wedi'u gwneud i osod cadair newydd yn y practis.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel ac roedd y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod unrhyw ddifrod i lorïau'r deintyddfeydd yn cael ei drwsio er mwyn helpu i'w glanhau'n effeithiol.

Sicrhau bod y blwch ar gyfer ceblau rhwydweithio yn y ddeintyddfa i fyny'r grisiau yn cael ei drwsio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau a bod y practis wedi gweithredu arnynt, megis archwiliadau croes-heintio, hylendid dwylo, nodiadau clinigol, ansawdd pelydr-X, rhagnodi, iechyd a diogelwch, clefyd y lleng filwyr, tân ac adborth gan gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis hefyd gynnwys Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn ei raglen archwilio arfaethedig a chytunodd y practis i wneud hynny.

Rydym hefyd yn cynghori'r practis i ddefnyddio templedi archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i'w gefnogi â'r rhaglen archwilio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal fel rhan o raglen archwilio flynyddol y practis.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â'r staff, clywsom fod y staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid, sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

Cadarnhaodd y practis ei fod yn ystyried defnyddio adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru hefyd. Adnodd hunanwerthuso yw hwn sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar y ffordd y mae'n gweithio ac yn galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn ystod o feysydd. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried adnodd hunanwerthuso o ryw fath.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau'r cleifion yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd bob amser. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Cadw cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion y cleifion. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol da yn gyffredinol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a welsom wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer y claf hwnnw ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella.

Gwnaethom drafod bwysigrwydd cofnodi unrhyw gyngor ar roi'r gorau i smygu a gynigir i'r cleifion â rheolwr y practis, ynghyd ag unrhyw wybodaeth hybu iechyd

y geg a roddir i'r cleifion. Gwnaethom hefyd drafod pwysigrwydd sicrhau bod pob radiograff yn cael ei gyfiawnhau, ac y llunnir adroddiad arno ym mhob achos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod unrhyw gyngor ar roi'r gorau i smygu a gynigir i'r cleifion, ynghyd ag unrhyw wybodaeth hybu iechyd y geg a roddir yn cael ei chofnodi.

Sicrhau bod pob radiograff yn cael ei gyfiawnhau, ac y llunnir adroddiad arno ym mhob achos.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y tîm o staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Rheolwr practis Total Orthodontics and Dental Care Plus, Wrexham yw'r rheolwr cofrestredig⁵, a rheolwr cyffredinol Bupa Dental Care Limited yw'r unigolyn cyfrifol enwebedig⁶.

⁵ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat

⁶ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli (Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017)

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir. Roedd rheolwr y practis yn hynod ymrwymedig ac ymroddedig i'w rôl yn y practis.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn hynod ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol â rheolwr y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn yn eu rolau.

Nodwyd gennym fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi llofnodi'r polisiau i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu. Roedd hyn yn sicrhau bod polisiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod arferion lleol yn gyfredol.

Rhodddwyd copi o'r datganiad o ddiben i ni, a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Roedd gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw ar ffeil.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Oasis Dental Care Limited

Dyddiad arolygu: 26 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Oasis Dental Care Limited

Dyddiad arolygu: 26 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Sicrhau bod urddas a pharch y cleifion yn cael eu diogelu yn y clinig agored.	4.1 Gofal ag Urddas; PDR 15	Gosod arbedwr urddas ar waelod y gadair ganol	Tîm Ystadau	2-3 mis
Sganio ffurflenni cydsyniad a hanes meddygol, ynghyd â ffurflenni FP17 wedi'u llofnodi, er mwyn eu cynnwys yn nodiadau clinigol unigol y cleifion.	6.1 Cynllunio Gofal i hybu annibyniaeth; PDR 20	Mae'r holl ffurflenni hanes meddygol a'r ffurflenni FP17 wedi'u llofnodi yn cael eu sganio i nodiadau'r cleifion ar ddiwrnod yr asesiad	Rheolwr y Practis a Thîm y Dderbynfa	Cwblhawyd y cam gweithredu
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod y peiriant glanhau a diheintio yn cael ei drwsio.		Mae Dragon Dental wedi ymweld â'r practis i asesu a ellir trwsio'r peiriant glanhau a diheintio, ac rydym yn aros am	Rheolwr y Practis	2 fis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, PDR 13	ddyfynbris ar hyn o bryd. Os na ellir trwsio'r peiriant – trefnir iddo gael ei symud o'r safle.		
Sicrhau bod unrhyw ddifrod i lorïau'r deintyddfeydd yn cael ei drwsio er mwyn helpu i'w glanhau'n effeithiol.		Y cynllun gweithredu yw newid/trwsio'r llawr yn y ddeintyddfa breifat i fyny'r grisïau	Tîm Ystadau	2-3 mis
Sicrhau bod y blwch ar gyfer ceblau rhwydweithio yn y ddeintyddfa i fyny'r grisïau yn cael ei drwsio.	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig; PDR 13	Mae Parr Group wedi ymweld â'r practis ac wedi trwsio'r blwch ar gyfer ceblau	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd y cam gweithredu
Sicrhau bod Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal fel rhan o raglen archwilio flynyddol y practis.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; PDR 16	Mae Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal fel rhan o archwiliadau blynyddol y practis	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd y cam gweithredu
Sicrhau bod unrhyw gyngor ar roi'r gorau i smygu a gynigir i'r cleifion, ynghyd ag unrhyw wybodaeth hybu iechyd y geg a roddir yn cael ei chofnodi.	3.5 Cadw cofnodion; PDR 20	Sesiwn un i un â'r clinigwyr. Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cofnodi manylion yn nodiadau'r practis	Clinigydd a Rheolwr y Practis	Cwblhawyd y cam gweithredu

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Sicrhau bod pob radiograff yn cael ei gyfiawnhau, ac y llunnir adroddiad arno ym mhob achos.		Sesiwn un i un â'r clinigwyr. Mae pawb yn deall pwysigrwydd cadw nodiadau manwl	Clinigwyr a Rheolwr y Practis	Cwblhawyd y cam gweithredu
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Grice

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 27/01/2020